yGoleuad

CYFROL CXXXVII RHIF 45 DYDD GWENER, TACHWEDD 6, 2009 Pris 40c

ENCIL SASIWN GENHADOL CHWIORYDD Y DE

'Rhagorol, bendithiol, ysbrydoledig, testun trafod a meddwl', oedd y geiriau ar wefusau'r merched ar ddiwedd yr Encil a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Nhrefeca.

Daeth pump ar hugain o ferched i'r encil ar yr l6ed o fis Medi i glywed siaradwraig arbennig sef; yr Athro Dr. Mari Lloyd Williams. Nid oedd yn rhaid cyflwyno yr Athro Mari i'r merched am ei bod bellach yn enwog yn ei maes trwy Gymru gyfan, ac yn wir drwy'r byd. Meddyg fel y gwyddoch yn dda yw hi, sydd yn arbenigo mewn gofal lliniarol a diwedd oes. Fe wyddom hefyd am ei gwaith yn ei heglwys fach leol gyda'r Annibynwyr yn ei chartref yn ardal Llanelwy. Nid yw yn ddiethr i ddarllenwyr y Goleuad gan bod sawl erthygl wedi ymddangos ganddi yno.

Arweiniwyd y dydd gan yr Athro Mari yn gwbwl anffurfiol ac yn effeithiol iawn. Nid y hi yn unig oedd yn gweithio, gan bu'n rhaid i'r merched hefyd! Fel bod pawb yn dod a hanes a phrofiad eu hunain gyda nhw, a chan nad oedd pawb yn adnabod eu gilydd, fe ofynnwyd inni fynd at rhywun nad oeddym yn eu hadnabod a gofyn tri cwestiwn, sef yn syml: Pwy ydach chi?, pa gapel yr ydych yn mynd iddo? a pham yr ydych wedi dod heddiw?

Buom yn cyflwyno'n hunain wedyn i'r grŵp a diddorol oedd cael cefndir a phrofiad pawb o'u heglwysi, gan eu bod yn amrywio o gynulleidfaoedd bach clos yng nhgefn gwlad, i rai lawer mwy a llai clos mewn trefi a dinasoedd.

Pwrpas yr holi a'r cyflwyno oedd ein bod yn gallu canolbwyntio pa mor bwysig ydi ein bod fel unigolion yn ymestyn allan yn groesawgar ac yn gyfeillgar i bawb y tu mewn i'n heglwysi, ac hefyd ein bod yn meddwl am ffyrdd o ymestyn allan fwy i'n cymunedau lleol. Nid dechrau a diwedd gwaith eglwys Iesu Grist yw ateb anghenion aelodau a theuluoedd o fewn yr eglwys, ond ymestyn allan i'n cymundebau lleol a gweld beth yw'r anghenion yno, ac yna cael ffordd i ymateb i'r gofynion hynny.

Man diogel, man i orffwys ydi hospis meddai'r Athro Mari. Man sy'n gweld anghenion pobol ar ddiwedd oes. Mae'n fan llawn chwerthin a hiwmor sy'n ymdrechu i ateb anghenion pawb beth bynnag fo eu cefndir yn grefyddol ac yn ysbrydol.

Yn wir, mae'n fan lle mae cynhaliaeth ysbrydol, meddyliol a chorfforol yn cael eu hateb i'r mwyafrif sy'n cael gofal yno. Gwelodd bod diffyg yn ein capeli am nad ydym o hyd yn gallu gweld anghenion ein giiydd gan nad ydym o hyd yn adnabod ein gilydd. Gan bod yr eglwys yn fan i addoli, yn fan cyfarfod, yn gymdeithas o bobol sy'n tystiolaethu bod yn Grisnogion, yn fan dysgu, yn fan i dderbyn cynhaliaeth ysbrydol, ac yn bwysig yn fan a all roi ystyr i'n bywydau heddiw, ac hefyd yn cynnig gofal, rhaid gofalu bod pawb yn teimlo eu bod yn perthyn i'r eglwys. Nid yw hyn o hyd yn bodoli o fewn ein heglwysi bellach am amrywiol resymau.

Yn ôl yr Athro Mari rhaid rhoi mwy o le i weddi bersonol yn ein hoedfaeon a hefyd ar aelwydydd y rhai sy'n glaf neu mewn profedigaeth ac angen. Mae gweddi dawel yn effeithiol ac yn cynnal pobol.

Lliwiodd ei sgwrs gyda hanesion rhai y bu yn gofalu amdanynt. Yr oedd gwrando ar ambell stori ddwys yn dangos yn eglur inni bwysicrwydd gwaith y mudiad hospis i unigolion a theuluoedd. Fe ddangosodd hefyd inni bod gennym waith i'w wneud i feithrin arweinwyr o fewn ein heglwysi, fel y gallwm ninnau gael hyder a'r ddawn i symud y tu allan i'n heglwysi i wasanaethau ein cymundebau. Cawsom sawl enghraifft sut oedd gwneud hyn.

Ar derfyn y dydd cawsom ein rhannu mewn grwpiau amrywiol o ran cefndir capeli, yn ddaeryddol, e.e. cefn gwlad a thref neu ddinas, i drafod sut yr oeddym ni yn gweld y gallwn ymestyn allan fwy i'n cymundebau.

Mae gofynion cefn gwlad a dinas wrth gwrs yn wahanol, ac mae y broblem gwirio yn pery problemau wrth fynd allan ar ran eglwys, ond nid cymaint fel ffrind neu unigolion. Serch y problemau fe ddylem ymdrechu i orchfygu popeth a mynd.

Dechreuwyd y dydd drwy ddefosiwn hynod o berthnasol ac effeithiol gan ein Llywydd Mrs Iola Alban, hithau hefyd a arweiniodd y diwrnod yn ei ffordd hynod drefnus, annwyl a diymhongar. Diolch iddi am ei gwaith nid yn unig yn ystod yr encil, ond ar hyd y flwyddyn. Diolch wrth gwrs i'r siaradwraig ardderchog, a hefyd i Miss Annie Derrick a Mrs Bethan Richards, ysgrifenyddes a thrysorydd y Sasiwn. Diolch hefyd i staff Trefeca am eu gofal amdanom drwy'r dydd. Roedd pawb yn gytun bod Trefeca yn leoliad arbennig i gynnal encil. Mae'n fan ragorol i encilio o'n bywydau prysur i drafod a myfyrio am yr hyn y gallwn ni ei gynnig i'n cymunedau lleol yn enw ein heglwysi, gan obeithio nad yw'r geiriau hyn yn wir am aelodau ein heglwysi ni, 'Believing but not belonging', a bod pawb o fewn ein heglwysi yn teimlo eu bod yn perthyn ac yn cael eu cynnal yn yr eglwys.

Mae geiriau Nantlais a ganwyd ar ddechrau'r encil yn ein hatgoffa o'n cyfrifoldebau a'n dyletswyddau fel aelodau o eglwys Iesu Grist sef:

Rho imi nerth i wneud fy rhan
i gario baich fy mrawd,
i weini'n dirion ar y gwan
a chynorthwyo'r tlawd.

Ehanga'n mryd a gwared fi
rhag culni o bob rhyw;
rho imi weld pob mab i ti
yn frawd i mi, O Dduw.

Gad imi weld dy wyneb pryd
yng ngwedd y llesg a'r gwael,
a gwrando'r cwyn nas clyw y byd
er mwyn dy gariad hael.

Gwen Môn Holt